# Cydlynu a chefnogi sesiynau therapi

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gydlynu a chefnogi sesiynau therapi dan gyfarwyddyd therapydd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda therapyddion ac unigolion i gytuno ar sut y bydd therapïau a gweithgareddau therapi penodol yn cael eu cefnogi. Mae hefyd yn cynnwys cyfrannu at werthuso sesiynau therapi.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gydlynu a chefnogi sesiynau therapi i unigolion
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am sesiynau therapi a gweithgareddau
3. gweithio mewn partneriaeth i gadarnhau'r canlyniadau y bydd sesiynau therapi yn ceisio'u cyflawni yn unol â dewisiadau, anghenion a chynlluniau therapi unigolion
4. gweithio â phawb sy'n ymwneud â'r mater i gytuno ar y cymorth mae unigolion yn ei ffafrio i gymryd rhan mewn sesiynau therapi
5. cynorthwyo unigolion ac eraill i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan mewn sesiynau therapi ac i ofyn cwestiynau
6. hybu a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn sesiynau therapi
7. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i baratoi'r amgylchedd ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau sesiynau therapi
8. annog, cynorthwyo ac arsylwi ar unigolion pan fyddant yn cymryd rhan mewn sesiynau therapi
9. grymuso unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae sesiynau therapi wedi cwrdd â'u dewisiadau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
10. rhoi canfyddiadau eich arsylwadau a rhoi adborth ar sut mae'r sesiynau therapi wedi cwrdd â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
11. gweithio mewn partneriaeth i gytuno a gwneud y newidiadau sydd eu hangen i gefnogi anghenion unigolion i gymryd rhan mewn sesiynau therapi
12. cymryd cyfrifoldeb i sicrhau bod amgylcheddau'n cael eu gadael yn daclus ac yn ddiogel ar ôl y sesiynau therapi
13. glanhau a dychwelyd adnoddau i'r man storio, a chynorthwyo eraill i wneud hynny
14. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer sesiynau therapi
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gydlynu a chefnogi sesiynau therapi

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gwahanol fathau o sesiynau therapi a’r canlyniadau maen nhw’n gobeithio eu cyflawni
2. y rôl mae sesiynau therapi yn ei chwarae mewn perthynas â hunaniaeth a hunan-barch unigolion
3. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a sesiynau therapi, a’i hadolygu
4. sut mae cael gafael ar asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg ar gyfer sesiynau therapi, a’u dilyn, a chynorthwyo eraill i wneud hynny
5. y mathau o sgiliau a hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi gweithgareddau therapi
6. sut mae hybu a chefnogi annibyniaeth unigolion i ddewis a chymryd rhan mewn sesiynau therapi
7. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol drwy addasu sesiynau therapi
8. sut mae ystyried anghenion unigolion o ran hygyrchedd er mwyn darparu amgylchedd diogel ar gyfer sesiynau therapi, a chefnogi eraill i wneud hynny
9. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar ddewis a chymryd rhan mewn sesiynau therapi
10. y mathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion ac eraill yn ystod sesiynau therapi, a sut i gael gafael arnynt
11. pam a sut y dylid paratoi amgylcheddau ar gyfer sesiynau therapi, a’u gadael yn daclus ac yn ddiogel wedyn, a sut i gydlynu’r gwaith hwn
12. pwysigrwydd sicrhau bod adnoddau gweithgareddau yn gweithio’n dda, ac yn cael eu defnyddio'n gywir
13. sut mae hybu arferion cynaliadwy y gellir eu defnyddio ar gyfer sesiynau therapi
14. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion â sesiwn therapi
15. sut mae hybu’r defnydd o ddyfeisiau ac adnoddau digidol i baratoi ar gyfer sesiynau therapi, a’u defnyddio yn ystod y sesiynau hynny ac wedyn
16. sut mae cyflawni, cofnodi ac adrodd ynghylch arsylwadau yn ystod sesiynau therapi
17. sut mae grymuso unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar sesiynau therapi
18. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn sesiynau therapi

19. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod sesiynau therapi
20. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau effeithio ar y cymorth sydd ei angen ar gyfer sesiynau therapi
21. damcaniaethau sy'n berthnasol i gydlynu a chefnogi sesiynau therapi
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cydlynu a chefnogi sesiynau therapi
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gydlynu a chefnogi sesiynau therapi
24. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn ystod sesiynau therapi
25. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod sesiynau therapi
26. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gydlynu a chefnogi sesiynau therapi, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gydlynu a chefnogi sesiynau therapi

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cydlynu a chefnogi sesiynau therapi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD320 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Therapi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |